Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru

## Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008

Adroddiad y Pwyllgor
Rhagfyr 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch
Diwydiant Cig Coch Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | **iii** |
| **Crynodeb** | **1** |
| **1. Rhagymadrodd** | **2** |
| **2. Egwyddor y Gorchymyn Arfaethedig** | **4** |
| **3. Cwmpas y Gorchymyn Arfaethedig** | **9** |
| **4. Y Darpariaethau Dehongli yn y Gorchymyn Arfaethedig** | **15** |
| **5. Materion Eraill** | **20** |

**Atodiad 1:** Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008

**Atodiad 2:** Memorandwm Esboniadol

**Atodiad 3:** Llythyr ymgynghori

**Atodiad 4:** Rhestr o'r ymatebion ymgynghori

**Atodiad 5:** Rhestr o'r dystiolaeth lafar

**Aelodau'r Pwyllgor**

---

| | | |
|---|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Sir Drefaldwyn |
| Nerys Evans | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd | Llafur | Dwyrain Abertawe |
| Brynle Williams | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Cymru |

## Crynodeb


Mae casgliadau'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru fel a ganlyn:

- Rydym yn cytuno, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad.
- Rydym yn fodlon ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig.
- Rydym yn fodlon ar eiriad Mater 1.1 yn y Gorchymyn arfaethedig.
- Rydym yn fodlon i adran ddehongli gael ei darparu ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig ac yn fodlon ar y dehongliad o'r termau 'y diwydiant cig coch', 'gwartheg' a 'moch'.
- Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â hybu a marchnata cig coch yng Nghymru ac yn cytuno â'r ymatebwyr fod rôl corff annibynnol, sef rôl sy'n cael ei chwarae gan Hybu Cig Cymru ar hyn o bryd, yn dal yn bwysig nid yn unig i gefnogi'r diwydiant cig coch yng Nghymru, ond hefyd er mwyn bod yn atebol i'r diwydiant a Gweinidogion Cymru.
- Yn ychwanegol at hyn, rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog nad yw'n bwriadu llyncu Hybu Cig Cymru yn Llwyodraeth y Cynulliad.
- Rydym o'r farn mai mater ar gyfer Mesurau yn y dyfodol ac ar gyfer unrhyw Reoliadau a gâi eu gwneud o ganlyniad i'r Mesurau hynny yw cwestiwn pennu'r ardoll yn gyffredinol, a chanlyniadau hynny ar gyfer materion trawsffiniol, ond, yng ngoleuni'r dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael ar y mater hwn, gobeithio y bydd ystyriaeth ddyladwy yn cael ei rhoi iddo ar yr adeg briodol yn y dyfodol.

## 1. Rhagymadrodd

*Y Cefndir*

1. Ar 22 Medi 2008, gosododd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, orchymyn arfaethedig, *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008* ('y Gorchymyn arfaethedig') a Memorandwm Esboniadol, yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 – 22.14. Mae copïau o'r dogfennau hyn i'w cael yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yn y drefn honno.

2. Ar 22 Medi 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at bwyllgor i gael ei ystyried yn fanwl, yn unol â Rheol Sefydlog 22.16.

3. Yn sgil penderfyniad yn y cyfarfod llawn ar 14 Hydref 2008, cafodd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru ('y Pwyllgor') ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 21, i ystyried y Gorchymyn arfaethedig a chyflwyno adroddiad arno heb fod yn hwyrach na 5 Rhagfyr 2008.[1] Cafodd y dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad ei estyn wedyn i 12 Rhagfyr ar ôl i'r Pwyllgor wneud cais am hynny.

*Hyd a lled gwaith craffu'r Pwyllgor*

4. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 21 Hydref 2008, cytunodd y Pwyllgor ar hyd a lled ein gwaith craffu, fel y'i nodir isod:

i. penderfynu a ddylai egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, hynny yw y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw a bennir ym Mater 1.1, gael ei roi i'r Cynulliad; a

ii. penderfynu a yw'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu fframwaith priodol i wireddu'r agenda polisi ar y diwydiant cig coch yng Nghymru. Yn benodol, a oedd telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy fras neu'n rhy fanwl.

*Tystiolaeth*

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahodd sefydliadau allweddol yn y diwydiant cig coch i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo'n gwaith. Mae copi o'n llythyr ymgynghori i'w weld yn Atodiad 3. Ceir rhestr o'r ymatebion ymgynghori yn Atodiad 4.

6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion: mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 5.

[1] Y Pwyllgor Busnes a bennodd y dyddiad ar gyfer yr adroddiad.

7. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi'n hadroddiad mae'n rhaid inni, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion a wneir ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig:

(i) gan unrhyw un arall o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(ii) gan unrhyw un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gyd-bwyllgor i'r ddau Dŷ Seneddol.

Does dim argymhellion o'r fath wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.

8. Yr adroddiad canlynol yw'r casgliadau yr ydym wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.

## 2. Egwyddor y Gorchymyn Arfaethedig

*Y Cefndir*

9. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ('Deddf 2006') i roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas â'r diwydiant cig coch yng Nghymru, drwy fewnosod mater newydd ym Maes 1 (Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig) o'r Atodlen honno:

*"Mater 1.1*

Y diwydiant cig coch, o ran—

(a) cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;

(b) gwella marchnata yn y diwydiant;

(c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;

(d) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn ystyr "y diwydiant cig coch" yw pob gweithgaredd sy'n rhan o —

(i) bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch (yn fyw neu'n farw), a

(ii) cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ac eithrio llaeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn).

At ddibenion y diffiniad hwn—

ystyr "gwartheg" yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr "moch" yw anifeiliaid o deulu'r moch, gan gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill."

10. Bydd rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad drwy'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, pwyllgorau'r Cynulliad neu Aelodau Cynulliad unigol i gyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau Cynulliad, o fewn cwmpas Mater 1.1.

*Memorandwm Esboniadol*[2]

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig yn dweud:

> "bwriedir i'r GCD arfaethedig, yn bennaf, fynd i'r afael â materion polisi a godwyd ond nad modd mynd i'r afael â hwy yn ystod taith Mesur ANChG [yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig] drwy Senedd y DU."[3]

12. Mae'n rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir mewn perthynas â chwestiwn codi ardollau amaethyddol, gan nodi bod sawl corff ar lefel y Deyrnas Unedig, cyn 2008 yn gyfrifol am gasglu a dosbarthu ardollau yn y sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth.[4]

13. Yn sgil adolygiad o'r byrddau ardollau hyn yn 2005 ('Adolygiad Radcliffe') cytunodd gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig o ran egwyddor y dylai'r byrddau ardollau presennol gael eu disodli gan un bwrdd ardollau i'r Deyrnas Unedig, a fyddai'n gorff cyhoeddus anadrannol a fyddai'n gweithredu fel cwmni dal ar gyfer chwe chwmni sector ar gyfer cig eidion a chig oen, moch, garddwriaeth, ydau, cynnyrch llaeth a thatws. Rhagwelai Adolygiad Radcliffe y byddai dibenion bwrdd ardollau'r Deyrnas Unedig a'r chwe chwmni yn cynnwys cynyddu effeithlonrwydd, cynhyrchedd, marchnata, datblygu a chynaliadwyedd yn sector amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, ac y câi'r dibenion hyn eu cyllido drwy ardollau ar y diwydiant.[5]

14. O ran y galwadau o'r cenhedloedd datganoledig, awgrymodd Adolygiad Radcliffe y dylid rhoi'r gallu i'r gweinyddiaethau hyn i greu byrddau ardollau i weithredu yn eu priod ardaloedd.[6]

15. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i esbonio bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ar Adolygiad Radcliffe, wrth i Fesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig fynd drwy Senedd y Deyrnas Unedig ac ynghylch sut y gallai darpariaethau'r Mesur hwnnw, a fyddai'n dod yn Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf ANChG") gael eu rhoi ar waith yng Nghymru. Canlyniad yr ymarfer ymgynghori, a dderbyniwyd wedyn gan Lywodraeth y Cynulliad, oedd bod y sector amaethyddol yng Nghymru am gael bwrdd ardollau cig coch a hybu cig coch ar wahân ond yn dymuno parhau'n rhan o fwrdd ardollau'r Deyrnas Unedig ym mhob ystyr arall.

16. Yn ychwanegol at hyn, daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad y dylai'r pŵer i godi'r ardoll ac i hybu'r sector cig coch yng Nghymru gael ei

---

[2] GPO-08-EM, Memorandwm oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig; Cynnig gan y Llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru
[3] GPO-08-EM, paragraff 37
[4] GPO-08-EM, paragraff 8
[5] *Ibid.*
[6] *Ibid.*

freinio yng Ngweinidogion Cymru, yn hytrach nag mewn bwrdd ardollau statudol ar wahân.[7]

17. Er hynny, roedd amseru'r ymarfer ymgynghori yn golygu na allai gofynion Llywodraeth y Cynulliad gael eu cynnwys fel rhan o Ddeddf ANChG. O ganlyniad i hynny, yn hytrach na rhoi pwerau i godi ardollau yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, rhoddodd Deddf ANChG bwerau i Weinidogion Cymru i greu bwrdd ardollau statudol a fyddai'n gyfrifol am hybu gwaith i farchnata, datblygu a chynnal y diwydiant cig coch yng Nghymru. Cafodd y corff hwn, sef 'Bwrdd Ardollau Cymru', ei sefydlu o dan Orchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008. Ym marn Llywodraeth y Cynulliad, mae'r trefniant hwn yn anfoddhaol.[8]

18. Gan hynny, fel y dywedwyd yn y Memorandwm Esboniadol:

> "… mae Gweinidogion Cymru yn ceisio cael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol gyda golwg ar ddwyn Mesur gerbron ar ddatblygu, marchnata a hybu'r diwydiant cig coch yng Nghymru. Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda'r pwerau hyn, roi swyddogaethau hybu/datblygu yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru neu ddirprwyo swyddogaethau i gyrff eraill yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, ni fyddai hyn yn bosibl gan ddefnyddio'r pwerau o dan Ddeddf ANChG."[9]

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

19. Mynegodd yr holl ymatebwyr, mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, gefnogaeth o ran egwyddor i gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r diwydiant cig coch yng Nghymru gael ei roi i'r Cynulliad.

20. Rhoddodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Cymru (NFU Cymru) gefnogaeth lawn i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, a dywedodd NFU Cymru:

> "We believe that the Welsh Assembly Government has identified a genuine need to legislate in this area (…)."[10]

21. Wrth fynegi eu cefnogaeth nhw i egwyddor y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd Hybu Cig Cymru:

> "This LCO will enable Welsh Ministers to oversee the development, promotion and marketing of the Welsh red meat industry in order to better ensure the specific needs of the Welsh industry are addressed

[7] GPO-08-EM, paragraff 9
[8] GPO-08-EM, paragraff 10
[9] GPO-08-EM, paragraff 12
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2

appropriately, while maintaining full accountability and control at a Welsh level."[11]

22. Ailadroddodd Hybu Cig Cymru eu cefnogaeth fel rhan o'u tystiolaeth lafar, gan awgrymu hyn:

> "A Measure that could come out of the Order, ultimately, could allow the Assembly to correct a failing in the Natural Environment and Rural Communities Act 2006, which does not allow the Assembly to do what it wants to do, namely to streamline the accountability of Hybu Cig Cymru directly to Ministers, as opposed to through the Welsh Levy Board."[12]

23. Fe aethon nhw yn eu blaen:

> "(…) there is no other route to achieve this other than the legislative route of changing the Natural Environment and Rural Communities Act 2006, which has proved to be prohibitive in terms of giving the flexibility that is needed for the Assembly to achieve what it wants to achieve on behalf of the industry."[13]

24. Roedd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf hefyd yn gefnogol i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, gan gredu ei fod yn fanteisiol bod y Gweinidog yn gyfrifol am bennu'r ardoll yng Nghymru gan fod y sector cig coch yn un mor bwysig, yn enwedig yng nghefn wgald Cymru.[14] Er hynny, fe roddon nhw amod ar y gefnogaeth hon ar y sail y bydden nhw'n disgwyl i'r Gweinidog ymgynghori â'r diwydiant cyn unrhyw newidiadau yn yr ardoll.[15]

*Tystiolaeth y Gweinidog*

25. Yn ei datganiad ar y ddeddfwriaeth yn y cyfarfod llawn, dywedodd y Gweinidog hyn wrth y Cynulliad:

> "Bydd y Gorchymyn hwn yn rhoi pwerau deddfwriaethol eang i'r Cynulliad mewn perthynas â'r canlynol: gwneud y diwydiant yn fwy effeithlon neu gynhyrchiol; gwella marchnata yn y diwydiant; gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y gallai eu darparu i'r gymuned; a gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy."[16]

---

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 4
[12] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 21
[13] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 24
[14] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 34
[15] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraffau 42-55
[16] Cofnod y Trafodion, (y cyfarfod llawn), 23.09.08, tudalen 87

26. Barn Llywodraeth y Cynulliad, meddai, oedd y byddai'n fwy priodol i'r Cynulliad gael y pwerau i ddarparu Mesur fel mai Gweinidogion Cymru fyddai'r corff i godi'r ardollau ac fel y caen nhw ddirprwyo'n uniongyrchol i Hybu Cig Cymru, heb fod angen Bwrdd Ardollau Cymru.[17]

27. Yn ychwanegol at hyn ac mewn ymateb i'r cwestiwn beth allai gael ei gyflawni drwy'r trosglwyddiad cymhwysedd y darperid ar ei gyfer yn y Gorchymyn arfaethedig na allai gael ei gyflawni drwy'r ddeddfwriaeth bresennol, dywedodd y Gweinidog fod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn cydnabod y rôl bwysig yr oedd y diwydiant cig coch, yn benodol, yn ei chwarae yng Nghymru. Aeth yn ei blaen:

> "Currently, we have a complex arrangement, in that Welsh Ministers have an interest, but, by means of the powers in the NERC Act, a non-departmental public body had to be created for the purposes of raising the levy. (…) We can rationalise that complexity by means of a Measure following the passing of this legislative competence Order."[18]

*Ein barn ni*

28. Nodwn y gefnogaeth eang i'r Gorchymyn arfaethedig ac, yn benodol, nad oes yr un sefydliad wedi gwrthwynebu, o ran egwyddor, roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig.

29. Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros ofyn am y cymhwysedd deddfwriaethol hwn ac rydym yn cytuno â'r Gweinidog a'r tystion y byddai'n fwy priodol i'r pwerau i godi ardollau gael eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn hytrach nag mewn corff statudol ar wahân wedi'i greu at y diben. Yn gysylltiedig â hyn, nodwn y pwynt a godwyd gan Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf ynghylch ymgynghori rhwng y Gweinidog a'r diwydiant cig coch cyn i unrhyw newid gael ei wneud yn yr ardoll, ond rydym o'r farn mai mater ar gyfer Mesurau yn y dyfodol yw hynny. Gan hynny, **rydym yn cytuno, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad.**

---

[17] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 4

[18] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 7

## 3. Cwmpas y Gorchymyn Arfaethedig

---

*Y cefndir*

30. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn cyd-fynd yn agos iawn â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf ANChG a'i fod yn atgynhyrchu geiriad adran 88(1) o'r Ddeddf honno ynglŷn â'r diwydiant cig coch.[19]

31. Gofynnodd y Pwyllgor i'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw roi eu barn am gwmpas y Gorchymyn arfaethedig ac, yn benodol, a oedd wedi'i lunio'n rhy fanwl neu'n rhy fras, ac am eu barn ar eiriad Mater 1.1.

### Cwmpas

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

32. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel yr oedd ar y pryd.

33. Yn benodol, nododd yr FUW ac NFU Cymru fod darpariaethau'r Gorchymyn arfaethedig yn adlewyrchu'r rhai sydd ar gael i'r sectorau perthnasol yn Lloegr[20] ac roedd Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru o'r farn bod angen i'r Gorchymyn arfaethedig ymestyn mor eang â phosibl er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r diwydiant.[21]

34. Mynegodd Hybu Cig Cymru eu cefnogaeth i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, gan ddweud:

> "We are of the view that the terms of the proposed LCO allow for the practical exercise of powers. It is specific enough to justify the transfer of powers to the Assembly."[22]

35. Roedd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf hefyd yn fodlon ar y cwmpas, gan nodi eu cefnogaeth ar gyfer "the greater flexibility that the Order gives the Assembly to deliver legislative powers in this area".[23]

36. Yn ystod y dystiolaeth lafar, holodd y Pwyllgor Hybu Cig Cymru a Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf o ran yr angen i ymestyn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig i ddarparu ar gyfer cigoedd coch heblaw gwartheg, moch a defaid, megis ceirw neu eifr.

---

[19] GPO-08-EM, paragraff 29
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2 a Thystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 3
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 7
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 4
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 5

37. Doedd y naill sefydliad na'r llall ddim o blaid gwneud hyn, gan fod yna deimlad nad oedd y sector cig carw, yn benodol, yn ddigon mawr yng Nghymru i haeddu casglu ardoll er mwyn cynnal gweithgareddau marchnata a hybu. Dadleuwyd bod yr ardoll gyfredol ar gyfer cig coch yn cael ei chasglu o sectorau sydd wedi'u strwythuro mewn ffordd sy'n haeddu gweithgareddau marchnata ar y cyd, gan fod y nifer fawr o fusnesau bach sy'n ffurfio'r sector cig coch a hyd y gadwyn gyflenwi yn golygu ei bod yn anodd i'r busnesau hynny ymgymryd yn effeithiol â gweithgareddau hybu a marchnata ar raddfa fawr ar eu pen eu hunain.

38. Yn ychwanegol at hyn, mynegodd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf bryderon y gallai ymgais i ddiwygio cwmpas y Gorchymyn arfaethedig beri oedi diangen yn y broses o sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn:

> "There are significant problems with going through the work necessary to add goat meat or venison, which would delay the legislation inordinately. I am also concerned that the cost of developing some provision for venison and goat meat would far outweigh the benefits, and would hinder the position of other red meats, such as lamb, beef and possible pork, which is also on the margins."[24]

*Tystiolaeth y Gweinidog*

39. Wrth nodi cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

> "(…) byddai'r GCD yn rhoi hyblygrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i drefnu strwythur y gwaith hybu, marchnata a datblygu ar gyfer y sector cig coch yng Nghymru mewn amryw o ffyrdd posibl, gan gynnwys rhoi'r pwerau hynny yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru."[25]

40. Yn ychwanegol at hyn ac wrth ymateb i'r cwestiwn a oedd unrhyw faterion y tu allan i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig y gellid bod wedi darparu ar eu cyfer, dywedodd y Gweinidog:

> "As it stands, the red meat industry Order includes Hybu Cig Cymru's current responsibilities for cattle, sheep and pigs. The Radcliffe review, which preceded the new levy-making arrangements, and the consultation that we had in Wales were quite clear about wanting to see levy-making responsibilities and functions and the promotion and marketing of red meat undertaken by a Welsh company along the

[24] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraffau 121-122
[25] GPO-08-EM, paragraff 30

lines of Hybu Cig Cymru, but other aspects of Welsh agriculture, such as dairy and cereals, retained at a UK level."[26]

41. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd hi wedi ystyried ymestyn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig er mwyn darparu ar gyfer cig coch arall fel cig carw neu gig gafr. Dywedodd ei bod yn teimlo ei bod yn fwy priodol bod y Gorchymyn arfaethedig yn aros o fewn cyfyngiadau Deddf ANChG.[27] Roedd hi hefyd yn credu y byddai angen ymgynghori ynglŷn ag unrhyw estyniad ar ddiffiniad cyfredol y sector cig coch, sef gwartheg, defaid a moch.[28]

42. I ategu hyn, awgrymodd ei swyddog polisi y gallai pwerau presennol Llywodraeth y Cynulliad o ran datblygu'r economi gael eu defnyddio i gefnogi a datblygu'r sector cig carw yng Nghymru yn y dyfodol, pe bernid bod hynny'n bwysig.[29] Cytunodd Hybu Cig Cymru a Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf â'r pwynt hwn.

*Ein barn ni*

43. Rydym yn nodi cefnogaeth yr holl ymatebwyr i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd ac rydym yn cytuno â'r Gweinidog a'r tystion ei fod yn darparu'r pwerau a'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

44. Rydym yn nodi hefyd nad oes cefnogaeth i ymestyn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig er mwyn darparu ar gyfer cigoedd coch heblaw gwartheg, moch neu ddefaid ac rydym yn cydnabod pwynt Llywodraeth y Cynulliad y gallai'r pwerau presennol ar gyfer datblygu'r economi gael eu defnyddio yn y dyfodol i roi cymorth i sectorau cig coch eraill, megis cig carw. Ar y sail honno, **rydym yn fodlon ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig.**

**Mater 1.1**

*Y cefndir*

45. Mae mater 1.1 yn darparu:

*"Mater 1.1*

Y diwydiant cig coch, o ran—

[26] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 15
[27] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 71
[28] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 74
[29] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraffau 77 a 81

(a) cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;

(b) gwella marchnata yn y diwydiant;

(c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;

(d) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

46. Gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgynghoreion roi eu barn ar eiriad Mater 1.1.

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

47. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod y Mater wedi'i ddrafftio mewn modd priodol.

48. Dywedodd Hybu Cig Cymru eu bod yn gymharol fodlon ar y Gorchymyn arfaethedig o ran y swyddogaethau o dan Fater 1.1, a oedd yn eu barn nhw yn "relatively broad and could include everything that the industry wants to do."[30]

49. Dywedodd NFU Cymru hefyd eu bod yn fodlon ar Fater 1.1 fel yr oedd wedi'i ddrafftio, gan ddweud:

> "The proposed LCO strikes a sensible balance between allowing for the practical exercise of powers, whilst being specific enough so as not to result in the unjustified transfer of power."[31]

50. Dim ond un sefydliad, sef y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol, a gynigiodd newid yng ngeiriad Mater 1.1, gan gynnig y gwelliant canlynol:

> "Bullet point a)
> Increasing efficiency or productivity and *economic return* in the red meat industry.
>
> (…)
>
> Bullet point c)
> Improving or developing services and *technology* that the red meat industry provides or could provide in the community."

51. Yn ystod eu tystiolaeth lafar, gofynnodd y Pwyllgor i Hybu Cig Cymru a Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf roi eu barn nhw ar y gwelliant a

---

[30] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 97
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2

awgrymwyd. Roedd Hybu Cig Cymru o'r farn bod geiriad Mater 1.1, heb ei ddiwygio, yn ddigon eang i gynnwys y gwelliannau a awgrymwyd gan y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol.[32] Roedd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf o'r farn bod y pedwar is-bwynt presennol yn y Mater yn glir iawn ac y byddai unrhyw newid iddyn nhw yn cymhlethu pethau ymhellach.[33]

*Tystiolaeth y Gweinidog*

52. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog pa mor briodol oedd geiriad Mater 1.1 ac a oedd angen i bwyntiau (a) i (d) yn y Mater gynnwys y geiriau 'cynyddu', 'gwella' a 'gwella neu ddatblygu'.

53. Dadleuai'r Gweinidog fod y Mater wedi'i eirio mewn ffordd sy'n dyblygu, gair am air, y diffiniadau a geir yn Neddf ANChG a bod y geiriau 'cynyddu', 'gwella' a 'datblygu' yn pwysleisio dyhead Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu, gwella a datblygu'r diwydiant.[34]

54. Gan ategu hyn, dywedodd cynghorydd cyfreithiol y Gweinidog wrthon ni fod y geiriad wedi'i fwriadu i fod yn hollgynhwysol, gan ddangos "a progressive, forward-looking view of the powers under the LCO".[35]

55. Aeth yn ei flaen:

> "(…) if we had not put in the words 'increasing', 'improving' and so on (…), it could be interpreted as though we were expressly excluding [these] words from the LCO and, therefore, it could be seen to be more restricted than the powers under the [NERC] Act."[36]

56. Yn ychwanegol at hyn, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog i gael ei barn ar y gwelliannu i Fater 1.1 a gynigiwyd gan y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol. Dywedodd nad oedd angen gwelliannau yn ei barn hi, oherwydd:

> "It is our intention that the LCO be as clear as possible and the proposed wording is not sufficiently specific in legislative terms so as not to create unnecessary ambiguity or confusion about the scope of the LCO. The LCO as proposed is sufficiently broad in its scope to permit a wide range of actions to be undertaken without a need to define these within the LCO itself."[37]

---

[32] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraffau 98 and 100
[33] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 102
[34] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 106
[35] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 107
[36] *Ibid.*
[37] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig, 24 Tachwedd 2008

57. Aeth ymlaen i ddweud y byddai cyfle i drafod y manteision a allai gael eu sicrhau o ganlyniad i Fesur yn y dyfodol ar ôl i'r Gorchymyn arfaethedig gael ei basio a rhoddodd ymrwymiad y byddai'n sicrhau y câi'r dystiolaeth a roddodd y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol ei hystyried fel rhan o'r broses honno.[38]

*Ein barn ni*

58. Rydym yn nodi bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â geiriad Mater 1.1 y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn arfaethedig. Rydym hefyd yn cydnabod esboniad y Gweinidog dros ddrafftio Mater 1.1 er mwyn adlewyrchu darpariaethau Deddf ANChG.

59. Rydym yn nodi'r gwelliant a awgrymwyd gan y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol ond yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan y tystion a'r Gweinidog na fyddai'r gwelliant yn rhoi dim mwy o eglurdeb mewn perthynas â Mater 1.1 a bod y Mater hwnnw'n ddigon eang, fel y mae wedi'i ddrafftio, i ganiatáu i'r amcanion polisi yn y maes hwn gael eu gwireddu. Er hynny, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol fel rhan o drafodaethau yn y dyfodol. Ar y sail honno, **rydym yn fodlon ar eiriad Mater 1.1 yn y Gorchymyn arfaethedig.**

[38] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig, 24 Tachwedd 2008

## 4. Y Darpariaethau Dehongli yn y Gorchymyn Arfaethedig

---

### Y darpariaethau dehongli - cyffredinol

*Y cefndir*

60. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i ddehongli'r termau 'y diwydiant cig coch', 'gwartheg', a 'moch', sy'n ymddangos ym Mater 1.1.

61. Ymrannodd ein hystyriaeth ni ar y mater hwn yn ddwy ran. Yn gyntaf, ystyriwyd y cwestiwn cyffredinol a ddylai darpariaethau dehongli gael eu darparu ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig ac yn ail, os dylen nhw, a yw'r darpariaethau dehongli sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig yn briodol. Manylir ar ein barn ni ar y ddau fater hyn ar ddiwedd yr adran hon.

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

62. Roedd yr ymatebwyr i gyd o blaid cynnwys darpariaethau dehongli ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig.

63. Yn benodol, roedd NFU Cymru yn credu ei bod yn rhesymol cynnwys y darpariaethau dehongli:

> "(…) particularly as less conventional varieties and breeds [of pigs and cattle] are being increasingly kept on Wales farms in order to supply niche markets, and we would not want them to fall outside of the scope of this order."[39]

*Tystiolaeth y Gweinidog*

64. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pam roedd hi wedi teimlo bod angen darparu ar gyfer adran ddehongli ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig, yn hytrach na gadael hyn fel mater i gael sylw gan Fesurau yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd ei chynghorydd cyfreithiol:

> "There is an interpretation section in this LCO because we wanted the wording in the LCO to be very clear about what it related to and for it to be as all-encompassing and expansive as possible." [40]

65. Awgrymodd hefyd nad oedd yr arfer yn un anghyffredin ac mai dyma'r ffordd "(…) to make it exactly clear what [the LCO] relates to…"[41]

---

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2
[40] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 119
[41] *Ibid.*

## Darpariaethau dehongli – "y diwydiant cig coch"

*Y cefndir*

66. O ran Mater 1.1, mae'r term 'diwydiant cig coch' yn golygu'r holl weithgareddau a geir yn y canlynol —

> "(i) bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch (yn fyw neu'n farw), a
>
> (ii) cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ac eithrio llaeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn)."

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

67. Roedd yr ymatebwyr i gyd yn fodlon ar ddehongliad 'y diwydiant cig coch' y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn arfaethedig.

68. Ailadroddodd Hybu Cig Cymru a Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf y gefnogaeth hon fel rhan o'u tystiolaeth lafar, gan ddatgan bod yr adran ddehongli yn y Gorchymyn arfaethedig yn "comprehensive in the activities that it lists"[42] ac "as expansive as possible" gan gynnig digon o le i unrhyw Fesurau yn y dyfodol ffitio i mewn i'r pwerau i ddeddfu a geir ynddo. Byddai'n fwy na digon i helpu'r diwydiant i gyrraedd ei nodau. [43]

69. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y Gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn glir bod gwlân cnu a chrwyn wedi'u hepgor o gwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, gan fod Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain yn rhedeg cynllun marchnata ar wahân ar gyfer gwlân cnu.[44]

70. Cawsom dystiolaeth gan nifer o dystion a awgrymai ei bod yn dderbyniol hepgor llaeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn o'r darpariaethau dehongli fel hyn [45] a bod hyn yn "important point of clarification which should remain in the LCO."[46]

*Tystiolaeth y Gweinidog*

71. Wrth ymateb i'r cwestiwn a oedd unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r diwydiant cig coch wedi'u hepgor o'r adran ddehongli, dywedodd cynghorydd cyfreithiol y Gweinidog:

---

[42] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 130
[43] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 131
[44] GPO-08-EM, paragraff 36
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2 a Thystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 7
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2

> "The interpretation field of the LCO was as extensive as we could make it. We discussed this with the office of the Welsh legislative counsel, which drafted the Order, and our wish was to make the wording as expansive as possible."[47]

72. Yn ychwanegol at hyn, aeth cynghorydd cyfreithiol y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> "We are not aware of any other type of activity that we have left out, and nothing was left out deliberately."[48]

**Darpariaethau dehongli – diffiniadau o "gwartheg" a "moch"**

*Y cefndir*

73. O ran Mater 1.1, ac at ddibenion y term 'diwydiant cig coch'—

> "ystyr "gwartheg" yw anifeiliaid buchol, <u>gan gynnwys</u> bison a byfflo;
>
> ystyr "moch" yw anifeiliaid o deulu'r moch, <u>gan gynnwys</u> baeddod gwyllt a moch fferal eraill."

74. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "Yn y GCD, diffinnir "cattle" a "pigs" yn fanwl er mwyn gwneud pethau'n glir… Nod y diffiniadau hyn yw ceisio dal polisi cig coch Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i feddu ar y cwmpas angenrheidiol i ymdrin yn llawn â'r sylwedd mewn Mesur yn y dyfodol."[49]

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

75. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NFU Cymru eu bod o'r farn ei bod yn "reasonable that both cattle and pigs are defined in the proposed Order".[50]

76. Yn gysylltiedig â hyn, cawsom dystiolaeth gan nifer o dystion a gredai na ddylid ychwanegu at y darpariaethau dehongli sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd yn y Gorchymyn arfaethedig na dileu dim ohonyn nhw.[51]

---

[47] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 84
[48] *Ibid.*
[49] GPO-08-EM, paragraffau 31 a 32
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 2
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 3 a Thystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 4

*Tystiolaeth y Gweinidog*

77. Pan ofynnwyd pam y teimlid bod angen cynnwys darpariaethau dehongli a diffiniadau o wartheg a moch yn y Gorchymyn yn hytrach na'u gadael yn fater i Fesurau yn y dyfodol, dywedodd cynghorydd cyfreithiol y Gweinidog:

> "It is important for us to make it clear to the National Assembly what the LCO includes. For example, if we had left 'the red meat industry' or 'cattle', 'sheep' or 'pigs' undefined, it may have been unclear to the National Assembly whether processing, marketing, or bison and buffalo and so on were within the Assembly's competence. So, we wanted to make that clear upfront, in a way that was consistent with other matters that have been inserted into Schedule 5, to give as much information as possible."[52]

78. Wrth ymateb i'r cwestiwn pam roedd y Gorchymyn arfaethedig yn diffinio gwartheg a moch ond nid defaid, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw anifail a allai gael ei ddiffinio yng nghategori defaid heblaw defaid, ac felly nad oedd angen rhoi diffiniad pellach.[53]

79. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd cyngor cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff fod defnyddio'r geiriau 'gan gynnwys' mewn diffiniad yn cyfyngu'r diffiniad hwnnw i'r geiriau sy'n dilyn, a hynny ar sail rheol ynghylch dehongli statudau. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd y rheol hon yn gymwys i'r adran ddehongli yn y Gorchymyn arfaethedig, hynny yw a oedd y diffiniad o 'wartheg' a 'moch' yn hepgor popeth arall ac na allai dim byd gael ei ychwanegu at y rhestr a geir ar ôl y geiriau 'gan gynnwys'. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

> "My understanding is that ['bison and buffalo'; 'wild boar and other wild pigs'] are not examples. The reason why they are included here is because there might otherwise be some ambiguity as to whether they are included or not."[54]

*Ein barn ni*

80. Ynglŷn â'r cwestiwn cyffredinol a ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys darpariaethau dehongli, rydym yn cydnabod bwriad y Gweinidog i gynnwys y darpariaethau hyn ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig fel ffordd i fod yn agored a thryloyw ynghylch nodau ac amcanion y Gorchymyn arfaethedig.

---

[52] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 119
[53] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 129
[54] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 123

81. Rydym hefyd yn nodi'r ddadl a gynigiwyd gan gynghorydd cyfreithiol y Gweinidog bod cynnwys adran ddehongli'n rhoi amlinelliad clir o hyd a lled y Gorchymyn arfaethedig a'i fod yn gyson â'r ffordd y mae materion wedi'u mewnosod yn Atodlen 5 o Ddeddf 2006 gan Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol eraill.

82. O ran geiriad y darpariaethau dehongli a chynnwys diffiniadau o 'wartheg' a 'moch', rydyn ni'n cydnabod tystiolaeth y Gweinidog a'r tystion eraill ac rydyn ni o'r farn bod y darpariaethau dehongli'n briodol.

83. Gan hynny, **rydym yn fodlon i adran ddehongli gael ei darparu ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig ac yn fodlon ar y dehongliad o'r termau 'y diwydiant cig coch', 'gwartheg' a 'moch'.**

## 5. Materion Eraill

### Hybu a Marchnata Cig Coch

*Y cefndir*

84. Cawsom dystiolaeth gan nifer o sefydliadau yn cyfeirio at y rhan bwysig y mae Hybu Cig Cymru yn ei chwarae ynglŷn â hybu a marchnata cig coch yng Nghymru.

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

85. O gofio bod cyfran arwyddocaol o'r cyllid ar gyfer gwaith Hybu Cig Cymru yn cael ei gasglu oddi wrth gynhyrchwyr cig coch drwy gyfrwng ardollau, barn y mwyafrif o'r ymatebwyr oedd bod strwythur cyfredol Hybu Cig Cymru a'i statws fel cwmni wedi'i gyfyngu drwy warant yn darparu digon o atebolrwydd i'r diwydiant ac i'r Gweinidogion.

86. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:

> "(…) we would take this opportunity to highlight our concern that the current independence and board structure of Hybu Cig Cymru should be maintained. Under no circumstances would our membership support HCC being absorbed into the Welsh Assembly Government."[55]

87. Ategwyd y pwynt hwn gan NFU Cymru, y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol a Hybu Cig Cymru eu hunain, a dynnodd sylw at bwysigrwydd cadw corff ar wahân ar gyfer cig coch yng Nghymru i helpu'r diwydiant i ddatblygu, marchnata a hybu. Dadleuai Hybu Cig Cymru:

> "Apart from Welsh Ministers, Hybu Cig Cymru is also accountable to the industry, both producers and processors, who pay the levy which enables HCC to carry out its duties."[56]

*Tystiolaeth y Gweinidog*

88. Fel rhan o'r datganiad deddfwriaethol i'r Cynulliad ar y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog y byddai'r Gorchymyn yn egluro'r berthynas rhwng Hybu Cig Cymru, ffermwyr, cynhyrchwyr a'r Llywodraeth.[57]

89. Ymhelaethodd ar y pwynt hwn wrth roi tystiolaeth ar lafar, gan esbonio y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn peri bod y berthynas rhwng Hybu Cig Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn un uniongyrchol, yn hytrach

---
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 3
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, WRMI 4
[57] Cofnod y Trafodion, (y cyfarfod llawn), 23.09.08, tudalen 89

na'i bod yn ofynnol i'r Llywodraeth sefydlu Bwrdd Ardollau Cymru yn gwango i ateb gofynion Deddf ANChG. Dywedodd nad oedd yn rhag-weld y byddai angen i waith beunyddiol Hybu Cig Cymru newid "as a result of a Measure that would allow Welsh Ministers to raise the levy."[58]

90. Yn ychwanegol at hyn, holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch y dystiolaeth yr oedden ni wedi'i chael gan dystion a oedd yn gofidio y gallai swyddogaethau Hybu Cig Cymru gael eu llyncu gan Lywodraeth y Cynulliad.

91. Atebodd y Gweinidog fod y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Hybu Cig Cymru, sydd â ffermwyr a thalwyr uniongyrchol yr ardoll yn aelodau yn, "appropriate way of ensuring that the industry feels that it owns the plans for the future support for the industry".[59] Cadarnhaodd y Gweinidog:

> "I have no intention of absorbing Hybu Cig Cymru into the Assembly Government. Its role as a company limited by guarantee, as has been explained, is appropriate, and it commands, I hope, the respect of levy payers and gives them ownership over the future of the red meat sector."[60]

*Ein barn ni*

92. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â hybu a marchnata cig coch yng Nghymru ac yn cytuno â'r ymatebwyr fod rôl corff annibynnol, sef rôl sy'n cael ei chwarae gan Hybu Cig Cymru ar hyn o bryd, yn dal yn bwysig nid yn unig i gefnogi'r diwydiant cig coch yng Nghymru, ond hefyd er mwyn bod yn atebol i'r diwydiant a Gweinidogion Cymru.

93. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog nad yw'n bwriadu llyncu Hybu Cig Cymru yn Llwyodraeth y Cynulliad.

## Materion trawsffiniol

*Y cefndir*

94. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog a'r tystion am y posibilrwydd y byddai materion o natur drawsffiniol yn codi o ganlyniad i'r Gorchymyn arfaethedig.

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

95. Barn Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf oedd bod natur fregus y diwydiant cig coch yng Nghymru a'r fasnach arwyddocaol a geir ar draws y ffin yn golygu y byddai'n well i'r ardoll yng Nghymru gael ei seilio ar gynhyrchu yn hytrach nag ar gigydda, gan nad yw'r system gyfredol o

---

[58] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 43
[59] *Ibid.*
[60] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 45

gasglu'r ardoll wrth gigydda yn caniatáu ar gyfer y fasnach drawsffiniol sylweddol:

> "If we had a problem with the slaughtering industry in Wales, and we had a major casualty for what ever reason, be it financial, economic or demographic, Wales' ability to have a reasonable pot of levy under the existing collecting system would be severely compromised."[61]

96. Fe aethon nhw ymlaen:

> "(…) the current levy collection method leaves HCC in a very vulnerable position. If we were to see the collapse of an organisation such as Vion[62], we could be looking at a collapse of 70 per cent of our income.[63]

97. Awgrymodd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf y byddai newid dull casglu'r ardoll nid yn unig yn dod ag arian ychwanegol i Gymru, ond hefyd diogelwch ariannol ychwanegol nad ydyn nhw'n credu ei fod ar gael ar hyn o bryd.[64]

98. Roedd Hybu Cig Cymru hefyd o'r farn y byddai'n fwy manteisiol, oherwydd natur fregus y diwydiant yng Nghymru, pe bai'r ardoll yn cael ei chasglu ar y sail bod yr anifeiliaid wedi'u geni ac wedi'u magu yng Nghymru, yn hytrach nag ar sail y safle lle caent eu cigydda. Amcangyfrifodd Hybu Cig Cymru y byddai Cymru'n ennill hyd at £1 miliwn pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu.[65]

99. Er hynny, dywedodd Hybu Cig Cymru nad oedd ganddyn nhw bryderon penodol am faterion trawsffiniol. Fel rhan o'u tystiolaeth ar y pwynt hwn, cyfeiriodd Hybu Cig Cymru at y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, sef y corff sy'n casglu'r ardoll cig coch yn Lloegr ac ar gyfer cynhyrchion eraill ledled y Deyrnas Unedig, gan ddweud ei fod yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl Deddf ANChG ac y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud hynny yn ei pherthynas â Hybu Cig Cymru. Oherwydd hynny, roedden nhw'n teimlo bod "much common ground and no leeway for anything other than minor differences."[66]

100. Ni fynegodd yr un o'r ymgynghoreion eraill bryderon am faterion trawsffiniol.

---

[61] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 68
[62] Vion Food Group, sefydliad cydweithredol o'r Iseldiroedd y mae canran fawr o'r anifeiliaid a gigyddir yng Nghymru yn perthyn iddo
[63] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 69
[64] *Ibid.*
[65] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 18.11.08, paragraff 39
[66] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.18.08, paragraff 64

*Tystiolaeth y Gweinidog*

101. Yn ei thystiolaeth hithau, cydnabu'r Gweinidog fod yna 'great deal of cross-border trade', ond roedd o'r farn ei bod yn hysbys iawn bod yr ardoll yn cael ei thalu yn y fan lle câi'r anifail ei gigydda.[67]

102. Yn ychwanegol at hyn, dywedodd swyddog polisi'r Gwenidog:

> "(…) we do not believe that the LCO will create cross-border difficulties. If a Measure following from the LCO were passed by the Assembly, it would confer on Welsh Ministers the legal power to determine the rate of the levy, in the way that the Welsh Levy Board currently does."[68]

103. Aeth yn ei flaen:

> "If there was any question of setting a different rate of levy in Wales from that in England, there would be cross-border issues and people would need to ponder long and hard before going down that road. We certainly have no intention at the moment of going down that road. The LCO does not raise any cross-border issues per se."[69]

*Ein barn ni*

104. Rydym yn nodi'r pwyntiau a godwyd gan Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf a Hybu Cig Cymru ynghylch natur fregus diwydiant cig coch Cymru ac rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf ynghylch materion trawsffiniol posibl yn sgil y natur fregus hon.

105. Er hynny, rydym yn nodi hefyd ddadl y Gweinidog nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn codi dim materion trawsffiniol, ond y gallai'r rheiny godi yn y dyfodol yn sgil cyfraddau gwahanol rhwng ardollau Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rydym wedi'n sicrhau nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad fwriad i wneud hyn ar hyn o bryd.

106. Rydym o'r farn mai mater ar gyfer Mesurau yn y dyfodol ac ar gyfer unrhyw Reoliadau a gâi eu gwneud o ganlyniad i'r Mesurau hynny yw cwestiwn pennu'r ardoll yn gyffredinol, a chanlyniadau hynny ar gyfer materion trawsffiniol, ond, yng ngoleuni'r dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael ar y mater hwn, gobeithio y bydd ystyriaeth ddyladwy yn cael ei rhoi iddo ar yr adeg briodol yn y dyfodol.

---

[67] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 91

[68] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, 11.11.08, paragraff 92

[69] *Ibid.*

Atodiadau

**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn Arfaethedig ar gyfer craffu cyn deddfu.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   D R A F F T

# 2008 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008

*Gwnaed - - - -* *[ ]*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y **** dydd o *******

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cygor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008 a daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(**1**) 2006 p.32.

**Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

**2.**— (1) Diwygier Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ym maes 1 (amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig), mewnosoder—

"*Mater 1.1*

Y diwydiant cig coch, o ran—

(a) cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;

(b) gwella marchnata yn y diwydiant;

(c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;

(d) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn ystyr "y diwydiant cig coch" yw pob gweithgaredd sy'n rhan o—

(i) bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch (yn fyw neu'n farw), a

(ii) cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ac eithrio llaeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn).

At ddibenion y diffiniad hwn—

ystyr "gwartheg" yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr "moch" yw anifeiliaid o deulu'r moch, gan gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill."

*Enw*

Clerc y Cyfrin Gyngor

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Assembly Measures"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae erthygl 2(2) yn mewnosod mater 1.1 a darpariaethau dehongli ym maes 1 (amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae'r mater newydd yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gwmpasu'r diwydiant cig coch, o ran—

- cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch;
- gwella marchnata yn y diwydiant cig coch;
- gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;
- gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio o gwbl ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

**MEMORANDWM ODDI WRTH Y GWEINIDOG DROS FATERION GWLEDIG**

**Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**(Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008**

# Cynnig gan y Llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru

## Rhagymadrodd

1. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i baratoi a'i osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan y llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad").

2. Mae adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, roi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caniateir ychwanegu'r materion hyn at Feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol (ac felly gallant addasu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a gwneud darpariaeth newydd), o ran materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) yn y Memorandwm hwn.

3. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym maes amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig (maes 1 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Mae Atodlen 5 o Ddeddf 2006 ynghlwm yn Atodiad 1.

4. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd o ran y mater penodedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion ystyrlon gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni yng Nghymru. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.

**Y Cefndir**

5. O ganlyniad i setliadau datganoli 1998, mae amaethyddiaeth wedi ei datganoli i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn y DU.

6. Yng Nghymru, o ganlyniad i ddatganoli amaethyddiaeth, mae Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau helaeth ym meysydd iechyd a lles anifeiliaid, y polisi amaethyddol cyffredin (o ran taliadau sengl a grantiau at ddatblygu gwledig, gan gynnwys prosesu a marchnata bwyd), coedwigaeth, pysgodfeydd, iechyd planhigion a sgil-gynhyrchion anifeiliaid,

7. Ymhlith pwerau datganoledig Gweinidogion Cymru mae pwerau o dan amryw o Ddeddfau Seneddol gan gynnwys Deddf Amaethyddiaeth 1967, a gynhwysodd ddarpariaethau penodol (diddymwyd rhai ohonynt bellach) sy'n ymwneud â chodi ardollau amaethyddol, hybu a datblygu amaethyddiaeth.

8. Fel cefndir i fater penodol codi ardollau amaethyddol, cyn 2008, casglai a dosbarthai amryw o gyrff DU neu Brydain Fawr ardollau mewn sectorau amaethyddol a garddwriaethol penodol. Un o'r cyrff hynny oedd y Comisiwn Cig a Da Byw ("y CCDB") a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 a godai ac a gasglai ardoll oddi wrth y sector cig coch ym Mhrydain Fawr. Yn sgil adolygiad yn 2005 o fyrddau codi ardollau amaethyddol a garddwriaethol yn y DU a Phrydain Fawr gan Rosemary Radcliffe ("Adolygiad Radcliffe"), cytunodd gweinyddiaethau'r DU mewn egwyddor i sefydlu un bwrdd ardoll sengl ar gyfer y DU a fyddai'n gorff cyhoeddus anadrannol ac a fyddai'n gweithredu fel cwmni daliannol ar gyfer chwe chwmni sectorol yn cwmpasu cig eidion a chig oen, moch, garddwriaeth, ydau, cynnyrch llaeth a thatws fel ei gilydd. Roedd dibenion y bwrdd ardollau newydd ar gyfer y DU a'i gwmnïau sectorol (yn ôl Adroddiad Radcliffe) i gynnwys cynyddu effeithlonrwydd, cynhyrchiant, marchnata, datblygu a chynaliadwyedd yn sector amaeth y DU, ac roedd y dibenion hynny i'w cyllido o'r ardollau diwydiannol hynny. Awgrymodd Adolygiad Radcliffe fwrdd i'r DU gydag is-gwmnïau sectorol neu mewn perthynas â gofynion penodol oddi wrth Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, y gallu i'r gweinyddiaethau datganoledig greu byrddau ardoll a byrddau hybu i weithredu o fewn eu tiriogaethau eu hunain.

9. Ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Adroddiad Radcliffe ac ar sut y dylid rhoi darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf ANChG") ar waith yng Nghymru yn ystod taith gynnar y Mesur drwy Senedd y DU. Casgliad canlyniadau'r ymgynghoriad oedd y bod y diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn dymuno cael bwrdd ardoll a hybu cig coch ar wahân ond i fod yn rhan o fwrdd ardollau'r DU ym mhob cyswllt arall. Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad y casgliadau hyn ond penderfynodd y byddai'n well bod y pŵer i godi ardoll o'r sector cig coch yng Nghymru a'i hybu a'i farchnata gael ei roi yn uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Gweinidogion Cymru bellach), yn hytrach na chreu corff statudol newydd sy'n cael codi

ardoll ac ymgymryd â gwaith hybu. Er hynny, oherwydd amseru'r ymgynghoriad nid oedd yn bosibl i bolisi Llywodraeth y Cynulliad gael ei adlewyrchu yn y Mesur ac yn Neddf ANChG a ddeilliodd ohono.

10. O ganlyniad i hynny rhoddodd Deddf ANChG bwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiddymu cyrff neu fyrddau ardoll sydd eisoes yn bodoli ac i greu rhai newydd ac iddynt swyddogaethau trawsffiniol drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth. Hefyd rhoddodd bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Gweinidogion Cymru bellach), Gweinidogion yr Alban, a'r adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon o ran materion nad oes a wnelont ond â'u priod diriogaethau i greu byrddau i hybu marchnata, datblygu a chynaliadwyedd yn eu priod ddiwydiannau amaethyddol.

11. Polisi cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw pan fo swyddogaethau yn rhai llywodraethol, naill ai o ran polisi neu o ran cyflenwi gwasanaethau, y dylent aros o fewn Llywodraeth y Cynulliad gan ganolbwyntio ar weithio yn uniongyrchol gyda chleientiaid a chwsmeriaid a rhoi cyflenwi gwasanaethau yng nghalon diwylliant Llywodraeth y Cynulliad. Mae cadw swyddogaethau o fewn Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau atebolrwydd mwy democrataidd a dull mwy effeithlon ac effeithiol o weithio. O ganlyniad, roedd y dewis a roddwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan Ddeddf ANChG i greu corff ardoll a hybu/datblygu ar wahân yn hytrach nag ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ei hun, yn anfoddhaol.

12. O ganlyniad i hynny, mae Gweinidogion Cymru yn ceisio cael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol gyda golwg ar ddwyn Mesur gerbron ar ddatblygu, marchnata a hybu'r diwydiant cig coch yng Nghymru. Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda'r pwerau hyn, roi swyddogaethau hybu/datblygu yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru neu ddirprwyo swyddogaethau i gyrff eraill yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, ni fyddai hyn yn bosibl gan ddefnyddio'r pwerau o dan Ddeddf ANChG.

13. Rhoddir y fframwaith statudol cyfredol ar gyfer datblygu, marchnata a chynaliadwyedd y sectorau amaethyddol a garddwriaethol yn y DU yng Ngorchymyn Deddf ANChG a Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Yng Nghymru, sefydlwyd bwrdd codi ardollau a hybu/datblygu ar gyfer y diwydiant cig coch gan Orchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008.

14. Mae'r paragraffau a ganlyn yn manylu ar egwyddorion sylfaenol y deddfau hyn a sut y maent yn rhyngweithio â'i gilydd.

<u>Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006</u>

15. Ceir darpariaethau perthnasol Deddf ANChG ym Mhennod 2 o Ran 8 )adran 87 ymlaen) ac maent yn cynnwys pwerau ar gyfer yr awdurdod priodol, drwy orchymyn:

a. sefydlu corff at ddiben neu at ddibenion sy'n dod o fewn adran 88, a
b. rhoi iddo swyddogaeth neu swyddogaethau sy'n dod o fewn adran 89.

16. O ran materion a oedd yn ymwneud â Chymru, y corff priodol oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru[2] (swyddogaeth a drosglwyddodd i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Ar gyfer materion sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr, neu â chyrff codi ardollau sydd eisoes yn bodoli, yr awdurdod priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol gan weithredu â chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol (Gweinidogion Cymru bellach)

17. Mae adran 88 yn darparu mai dibenion caniatadwy corff (bwrdd) a sefydlir o dan adran 87 yw:

a. Cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant mewn diwydiant amaethyddol neu ddiwydiant sy'n perthyn i amaethyddiaeth;
b. Gwella marchnata mewn diwydiant amaethyddol neu ddiwydiant sy'n perthyn i amaethyddiaeth;
c. Gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y mae diwydiant perthynol eu darparu neu y gallent eu darparu i'r gymuned; ac
ch. Gwella'r ffyrdd y mae diwydiant amaethyddol neu ddiwydiant perthynol yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

18. Mae adrannau 89 i 97 (ac Atodlenni 8 i 10) yn gwneud darpariaeth fanwl bellach sy'n ymwneud â byrddau amaethyddol, y swyddogaethau a ganiateir i fwrdd, pwerau i ddiddymu cyrff ardollau presennol, pwerau'r awdurdod priodol (h.y. pwerau i roi grantiau ac i ddyroddi cyfarwyddiadau rhwymol i fwrdd) a gweithdrefnau gwneud gorchmynion.

19. Mae dau orchymyn wedi cael eu gwneud o dan Ddeddf ANChG:
- Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 (OS 2008/576); a
- Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008 (OS 2008/420 (Cy.39)).

Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008

20. Mae Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 ("Gorchymyn BDAG") yn gymwys i [3]:
a. y diwydiant cig eidion a defaid yn Lloegr;
b. y diwydiannau ydau a hadau olew yn y Deyrnas Unedig;
c. y diwydiant garddwriaeth ym Mhrydain Fawr;
ch. y diwydiant llaeth ym Mhrydain Fawr;
d. y diwydiant moch yn Lloegr; a
dd. y diwydiant tatws ym Mhrydain Fawr

**2** Adran 96(1)(b)
**3** Erthygl 2 o'r Gorchymyn (cwmpas)

21. O fewn y cwmpas hwn, mae'r Gorchymyn BDAG yn sefydlu corff o'r enw Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Dyma ei ddibenion (yn unol adran 88 o Ddeddf ANChG)[4]:
    a. Cynyddu effeithiolrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;
    b. Gwella marchnata yn y diwydiant;
    c. Gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y gallent eu darparu i'r gymuned; ac
    ch. Gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

22. Mae swyddogaethau'r Bwrdd yn unol â'r swyddogaethau y darparwyd ar eu cyfer yn adran 89 o Ddeddf ANChG ac Atodlen 9 iddi. Fe'u rhestrir mewn 20 paragraff yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn ac maent yn cynnwys (fel enghreifftiau): hybu neu ymgymryd ag ymchwil wyddonol; darparu neu hybu darpariaeth hyfforddiant ar gyfer y sawl sydd wedi ymgysylltu â'r diwydiant neu sy'n bwriadu ymgysylltu â'r diwydiant; darparu neu hybu darparu hyfforddiant a hybu neu ymgymryd ag ymchwil i wella trefniadau i farchnata a dosbarthu cynhyrchion.

23. Er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer pob diwydiant a gwmpesir gan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r BDAG osod ardoll[5].

24. O ran yr ardaloedd daearyddol a grybwyllir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn, mae'r Bwrdd yn disodli Cyngor Tatws Prydain, Yr Awdurdod Ydau Cartref, Cyngor Datblygu Garddwriaeth, Y Comisiwn Cig a Da Byw, a'r Cyngor Datblygu Llaeth a ddiddymwyd oll[6].

<u>Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008</u>

25. O dan Ddeddf ANChG, gwnaed darpariaeth mewn deddfwriaeth Gymreig ar wahân i roi effaith i gasgliad ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad y dylai fod corff penodol i godi ardollau ar y diwydiant cig coch a'i hybu yng Nghymru. Gan nad yw Gweinidogion Cymru yn cael rhoi pwerau codi ardollau a phwerau hybu/datblygu iddynt hwy eu hunain o dan Ddeddf ANChG, gwnaeth Gweinidogion Cymru Orchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008 ("Gorchymyn BAC") fel mesur dros dro ar 19 Chwefror 2008. Daeth Bwrdd Ardollau Cymru i fodolaeth ar 20 Chwefror 2008 a dechrau arfer ei swyddogaethau codi ardollau a hybu/datblygu ar 1 Ebrill 2008. Effaith y Gorchymyn hwn oedd cadw hybu a marchnata cig coch o Gymru yng Nghymru.

26. Mae Gorchymyn BAC yn debyg iawn o ran ffurf a chynnwys i'r Gorchymyn BDAG, er bod ei gwmpas yn llawer iawn mwy cyfyngedig, sef y diwydiannau cig eidion, defaid a moch yng Nghymru (h.y. mae'n cau'r bylchau a adawyd gan y Gorchymyn BDAG- gweler paragraff 20 uchod). Mae Gorchymyn BAC yn diffinio'r diwydiannau cig eidion, defaid

**4** Erthygl 3 (Sefydlu Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth)
**5** Erthygl 6 (Ardollau)
**6** Erthygl 17 (Diddymu cyrff sydd eisoes yn bod)

a moch yn yr un ffordd â'r Gorchymyn BDAG, ond gan ychwanegu "prosesu", sef:

ystyr "y diwydiant cig eidion a chig oen" yw pob gweithgaredd sy'n rhan o gynhyrchu, marchnata a dosbarthu—

a. defaid a gwartheg, gan gynnwys cynnal lladd-dai ac arwerthiannau a marchnadoedd defaid a gwartheg;
b. cig a chynhyrchion cig (heblaw llaeth a chynhyrchion llaeth) oddi wrth defaid a gwartheg;

ystyr "y diwydiant moch" yw pob un o'r gweithgareddau sy'n rhan o gynhyrchu, marchnata a dosbarthu moch neu gynhyrchion moch, gan gynnwys cynnal lladd-dai ac arwerthiannau a marchnadoedd moch;

O ran y diwydiannu hyn dibenion Bwrdd Ardollau Cymru yw'r rhai a osodir yng Ngorchymyn BDAG, ac a restrir ym mharagraffau 17 a 21 uchod.

27. At y perwyl hwn, caiff BAC osod ardollau (erthygl 6), caiff weithredu drwy is-gyrff (erthygl 5) ac mae iddo'r un swyddogaethau ag sydd gan y BDAG mewn perthynas â'r diwydiannau cig eidion, defaid a moch yn Lloegr (gweler Atodlen 1).

28. Yn ymarferol, mae Bwrdd Ardollau Cymru wedi dirprwyo llawer o'i swyddogaethau drwy gyfrwng cytundeb dirprwyo i Hybu Cig Cymru (cwmni cyfyngedig drwy warant ac ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru) ("HCC").

**Cwmpas**

29. Mae cwmpas yr GCD yn cyd-fynd yn agos iawn â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf ANChG ac mae'n atgynhyrchu geiriad adran 88(1) o'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â'r dibenion a ganiateir i 'r Byrddau) o ran y diwydiant cig coch. Rhestrir y dibenion hynny ym mharagraff 17.

30. Byddai'r GCD yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Mesurau o ran y dibenion hynny i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diwydiant cig coch yng Nghymru, dibenion y gellir gwneud is-ddeddfwriaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd o dan Ddeddf ANChG. Wrth wneud hynny, byddai'r GCD yn rhoi hyblygrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i drefnu strwythur y gwaith hybu, marchnata a datblygu ar gyfer y sector cig coch yng Nghymru mewn amryw o ffyrdd posibl, gan gynnwys rhoi'r pwerau hynny yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

31. Yn y GCD, diffinnir "cattle" a "pigs" yn fanwl er mwyn gwneud pethau'n glir. Gan fod gan y term "cattle" amrywiaeth o ddiffiniadau yn y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, gallai gadael y term hwn heb ei ddiffinio beri amwysedd ynghylch yr anifeiliaid y bwriedir eu cwmpasu gan y term hwn. Ar ben hynny, am fod y term "cattle" wedi ei ddiffinio, heb ddiffiniad pellach, gellid dod i'r casgliad bod y term "pigs" wedi ei fwriadu i fod yn gyfyngedig i foch domestig, cyffredin, tra, mewn gwirionedd, bwriedir i'r term gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill.

32. At ddibenion y diffiniad, ystyr "cattle" yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo ac ystyr "pigs" yw anifeiliaid o deulu'r moch gan gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill. Nod y diffiniadau hyn yw ceisio dal polisi cig coch Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i feddu ar y cwmpas angenrheidiol i ymdrin yn llawn â'r sylwedd mewn Mesur yn y dyfodol.

33. Mae'r diwydiant cig coch wedi ei ddiffinio yn yr GCD arfaethedig fel yr holl weithgareddau sydd ynghlwm wrth:
    (i) bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch (yn fyw neu'n farw), a
    (ii) cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod i raddau helaeth o'r anifeiliaid hynny (ar wahân i laeth a chynhyrchion llaeth, cnu, gwlân a chrwyn).

34. Dewiswyd y geiriau “products derived to any substantial extent from those animals” i adlewyrchu geiriau Deddf ANChG yn agos. Mae'r term "breeding" hefyd yn adlewyrchu Deddf ANChG (sy'n cyfeirio at "breeding and keeping")”).

35. Yn yr un ffordd, dewiswyd y term “manufacturing” a ddefnyddir yn yr GCD gan ei fod yn adlewyrchu geiriad Deddf ANChG yn agos.

36. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r GCD yn eglur yn ei eiriad bod gwlân cnu a chrwyn yn cael eu heithrio yn benodol. Mae Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain yn gweinyddu cynllun marchnata ar gyfer gwlân cnu.

37. Mae'r GCD yn gyson â'r fframwaith deddfwriaethol ehangach a roddir yn Neddf ANChG. Byddai'n rhoi digon o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyflawni'r gweithgareddau a gyflawnir gan Fwrdd Ardollau Cymru ar hyn o bryd (sef codi ardoll yn y sector cig coch), ar wahân i unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys cnu, gwlân a chrwyn. Y bwriad sylfaenol ar hyn o bryd yw rhoi'r pwerau hynny i Weinidogion Cymru a diddymu BAC drwy is-ddeddfwriaeth. Oherwydd hynny, bwriedir i'r GCD arfaethedig, yn bennaf, fynd i'r afael â materion polisi a godwyd ond nad modd mynd i'r afael â hwy yn ystod taith Mesur ANChG drwy Senedd y DU.

Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

38. Mae adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd unrhyw Fesur Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'n darparu na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os bydd yn gymwys ac eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n galluogi darpariaethau'r Mesur i gael eu

gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

39. Mae'r cyfyngiad sy'n ymwneud â swyddogaethau ac eithrio o ran Cymru yn gwahardd y Cynulliad rhag pasio unrhyw Fesur sy'n rhoi i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall, swyddogaethau nad ydynt yn perthyn i Gymru.

**Swyddogaethau Gweinidogion y Goron**

40. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynddo'i hun yn ceisio addasu na thynnu oddi ar unrhyw un o Weinidogion y Goron unrhyw swyddogaethau sydd ganddo. Yn rhinwedd Rhan 2 a Rhan 3 o Atodlen 5 i'r Ddeddf, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau unrhyw un o Weinidogion y Goron heb gydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion y Goron, ymgynghorir ag Adrannau priodol o Lywodraeth y DU a cheisir dod i gytundeb ar unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid neu addasu'r swyddogaethau hynny.

41. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yr awdurdod priodol o hyd at ddibenion Deddf ANChG o ran cyrff trawsffiniol sy'n codi ardollau, er ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol weithredu ar faterion trawsffiniol ond gyda chymeradwyaeth pob awdurdod datganoledig priodol (fel sy'n briodol).

**Y Casgliad**

42. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig bod cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei estyn yn unol â'r GCD arfaethedig y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag ef.

**Elin Jones**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

**Gorffennaf 2008**

**YR ATODIAD**

CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN
AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL

**DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006**

## ATODLEN 5 MESURAU'R CYNULLIAD

**Adran 94**

### Rhan 1 Materion

*Maes 1: amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig*

*Maes 2: henebion ac adeiladau hanesyddol*

*Maes 3: diwylliant*

*Maes 4: datblygu economaidd*

*Maes 5: addysg a hyfforddiant*

[*Mater 5.1*

Darpariaeth am y categorïau o ysgol y caniateir eu cynnal gan awdurdodau addysg lleol.

*Mater 5.2*

Darpariaeth am sefydlu a chau ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, eu newid o'r naill gategori i'r llall a'u newid mewn agweddau eraill.

*Mater 5.3*

Darpariaeth am dderbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.

*Mater 5.4*

Darpariaeth am y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.

*Mater 5.5*

Darpariaeth am fynychu'r ysgol, ymddygiad disgyblion yn yr ysgol, disgyblaeth ysgol a gwahardd disgyblion o'r ysgol (gan gynnwys dyletswyddau rhieni mewn cysylltiad â'r materion hynny).

*Mater 5.6*

Darpariaeth am wneud trefniadau i ddarparu addysg ar gyfer pobl mewn oedran ysgol gorfodol a waharddwyd o ysgolion neu na fyddent am unrhyw reswm arall yn cael addysg addas fel arall.

*Mater 5.7*

Darpariaeth am yr hawl i gael addysg gynradd, uwchradd a phellach ac i gael hyfforddiant.

*Mater 5.8*

Darpariaeth am ddarparu gwasanaethau a fwriedir i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl—

(a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,

(b) i gymryd mantais o gyfleoedd i gael cyflogaeth, neu

(c) i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymuned.

*Mater 5.9*

Darpariaeth am fwyd a diod a ddarperir ym mangre'r ysgol neu a ddarperir ar gyfer plant mewn man lle y cânt eu haddysg neu eu gofal plant.

*Mater 5.10*

[Darpariaeth am deithio gan bobl sy'n teithio i leoedd lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno.

Mae'r mater hwn yn gymwys i—

(a) pobl sy'n cael addysg feithrin, gynradd, uwchradd neu bellach neu hyfforddiant;

(b) pobl a ddisgrifir ym mater 5.17 sy'n cael addysg uwch.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—]

(a) rheoli'r defnydd o gerbydau modur ar ffyrdd, eu gwneuthuriad a'u cyfarpar a'r amodau na chaniateir eu defnyddio felly odanynt;

(b) tramgwyddau traffig ffyrdd;

(c) trwyddedu gyrwyr;

(ch) hyfforddiant gyrru;

(d) yswirio cerbydau modur;

(dd) oriau gyrwyr;

(e) rheoli traffig ar ffyrdd arbennig, croesfannau i gerddwyr, arwyddion traffig a therfynau cyflymder;

(f) trwyddedu gweithredwyr gwasanaethau cerbydau cyhoeddus;

(ff) darparu a rheoli gwasanaethau rheilffyrdd, ar wahân i gymorth ariannol—

(i) nad yw'n ymwneud â chludo nwyddau,

(ii) nas gwneir mewn cysylltiad â gorchymyn gweinyddu rheilffordd, a

(iii) nas gwneir mewn cysylltiad â Rheoliad y Cyngor (EEC) 1191/69 fel y'i diwygiwyd gan Cyngor Rheoliad (EEC) Rhif 1893/91 ar rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus mewn cludiant;

(g) diogelwch cludiant;

(ng) llongau, ar wahân i gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau llongau i Gymru, o Gymru neu yng Nghymru;

(h) hawliau a rhyddidau mordwyo, ar wahân i reoli gwaith a all rwystro neu beryglu mordwyaeth;

(i) safonau technegol a safonau diogelwch llestrau;

(j) harbyrau, dociau, glanfeydd a llithrffyrdd i gychod ar wahân i'r rheini a ddefnyddir neu y mae'n ofynnol eu cael yn gyfan gwbl neu yn bennaf ar gyfer cysylltiadau rhwng mannau yng Nghymru;

(l) cofrestru gwasanaethau bysiau lleol a chymhwyso a gorfodi amodau rheoli traffig ynghylch y gwasanaethau hynny.

[*Mater 5.11*

Darparu ar gyfer ac mewn cysylltiad â sicrhau darpariaeth cyfleusterau ar gyfer addysg ôl-16 neu hyfforddiant.

*Mater 5.12*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sefydlu a diddymu—

(a) sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach, a

(b) cyrff sy'n rhedeg y cyfryw sefydliadau,

gan gynnwys yr amgylchiadau pan fydd sefydliad addysgiadol yn dechrau neu yn peidio ag ymwneud â darparu addysg bellach.

Darpariaeth ynghylch—

(a) rhedeg a swyddogaethau'r cyfryw sefydliadau a chyrff sy'n rhedeg y cyfryw sefydliadau;

(b) eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r cyfryw sefydliadau a chyrff sy'n rhedeg y cyfryw sefydliadau;

(c) eiddo a ddelir gan unrhyw berson at ddibenion y cyfryw sefydliad;

(ch) llywodraethiant a staff y cyfryw sefydliadau.

*Mater 5.13*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sicrhau cydlafurio—

(a) rhwng cyrff sy'n rhedeg sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach, neu

(b) rhwng un neu ragor o'r cyfryw gyrff a phersonau neu gyrff eraill ac iddynt swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant yng Nghymru,

gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sefydlu cyrff at ddiben cyflawni swyddogaethau ar ran un neu ragor o bersonau neu gyrff sydd â rhan mewn trefniadau cydlafurio.

*Mater 5.14*

Darparu adnoddau ariannol ar gyfer ac mewn cysylltiad â—

(a) addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach;

(b) addysg ôl-16 neu hyfforddiant a ddarperir mewn dull heblaw gan y cyfryw sefydliadau;

(c) gwneud ymchwil sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b).

*Mater 5.15*

Arolygu—

(a) addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach;

(b) addysg ôl-16 neu hyfforddiant a ddarperir mewn dull heblaw gan y cyfryw sefydliadau;

(c) hyfforddi athrawon a chynorthwywyr addysgu arbenigol ar gyfer ysgolion;

(ch) gwasanaethau o'r mathau a grybwyllir ym mater 5.8.

*Mater 5.16*

Darparu cyngor a gwybodaeth mewn cysylltiad ag astudiaethau a gwneud astudiaethau mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r mathau o addysg, hyfforddiant neu wasanaethau a grybwyllir ym mater 5.15.]

[*Mater 5.17*

Addysg a hyfforddiant ar gyfer—

(a) pobl sydd anhawster dysgu mwy na mwyafrif y bobl o'r un oedran â'r bobl hynny;

(b) pobl sydd â, neu a fu â—

(i) nam corfforol neu feddyliol, neu

(ii) cyflwr iechyd sy'n gwaethygu (fel canser, sglerosis ymledol neu heintiad HIV) pan fo mewn cyfnod lle nad oes nam corfforol na nam meddyliol.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys trefniadau i bobl deithio i'r lleoedd lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac yn ôl.]

*Dehongli'r maes hwn*

[Yn y maes hwn—

[ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;]

ystyr "addysg ôl-16" yw—

(a) addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas o ofynion pobl sydd uwchlaw oedran ysgol gorfodol, a

(b) gweithgaredd amser hamdden wedi ei drefnu sy'n gysylltiedig â'r cyfryw addysg;

ystyr "hyfforddiant ôl-16" yw—

(a) hyfforddiant sy'n addas o ofynion pobl sydd uwchlaw oedran ysgol gorfodol, a

(b) gweithgaredd amser hamdden wedi ei drefnu sy'n gysylltiedig â'r cyfryw hyfforddiant.

Mae cyfeiriadau yn y maes hwn at sefydliad sy'n ymwneud â darparu addysg bellach yn gyfeiriadau at sefydliad addysgol, heblaw ysgol neu sefydliad o fewn y sector addysg uwch (o fewn ystyr Deddf Addysg Bellach ac Uwch) a gynhelir (p'un ai at y diben hwnnw yn unig ai peidio) at ddiben darparu addysg bellach.]

Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y maes hwn ac yn Neddf Addysg 1996 yr un ystyr yn y maes hwn ag yn y Ddeddf honno.]

*Maes 6: yr amgylchedd*

*Maes 7: gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân*

*Maes 8: bwyd*

*Maes 9: iechyd a gwasanaethau iechyd*

[*Mater 9.1*

Darpariaeth ar gyfer, ac mewn cysylltiad â darparu iawn heb droi at achos sifil o dan amgylchiadau, o dan gyfraith Cymru a Lloegr, pan fo atebolrwydd cymwys mewn camwedd yn codi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau (yng Nghymru neu yn rhywle arall) fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

mae "anaf personol" yn cynnwys unrhyw glefyd ac unrhyw amhariad ar iechyd corfforol neu feddyliol person;

ystyr "atebolrwydd cymwys mewn camwedd" yw atebolrwydd mewn camwedd sy'n ddyledus o ran anaf personol neu golled neu o ganlyniad i anaf personol neu golled sy'n codi o dordyletswydd gofal neu mewn cysylltiad â thordyletswydd gofal sy'n ddyledus i unrhyw berson mewn cysylltiad â diagnosiad o salwch, neu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth unrhyw glaf.

mae i "claf" yr un ystyr ag sydd iddo yn y Ddeddf honno;

ystyr "y gwasanaeth iechyd yng Nghymru" yw'r gwasanaeth iechyd a barheir o dan adran 1(1)o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

mae i "salwch" yr un ystyr ag sydd iddo yn y Ddeddf honno;

*Maes 10: priffyrdd a chludiant*

*Maes 11: tai*

*Maes 12: llywodraeth leol*

[*Mater 12.1*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag—

(a) cyfansoddiad prif ardaloedd newydd a diddymiad neu addasiad prif ardaloedd sydd eisoes yn bodoli, a

(b) sefydliad cynghorau ar gyfer y prif ardaloedd newydd a diddymiad prif gynghorau sydd eisoes yn bodoli.

Ystyr "prif ardal" yw bwrdeistref sirol neu sir yng Nghymru, ac ystyr "prif gyngor" yw cyngor ar gyfer prif ardal.

*Mater 12.2*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag—

(b) y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau a'u dwyn i rym, a

(b) gorfodi is-ddeddfau.

Ystyr "is-ddeddfau" yw deddfau mewn dosbarth y caiff Gweinidogion Cymru eu cadarnhau (ond y mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn cynnwys darpariaeth i ddileu'r gofyniad am gadarnhad).

*Mater 12.3*

Unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) yr egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau o awdurdodau perthnasol,

(b) codau ymddygiad ar gyfer y cyfryw aelodau,

(c) rhoi swyddogaethau i unrhyw berson sy'n ymwneud â hybu neu gynnal safonau uchel o ymddygiad yn y cyfryw aelodau (gan gynnwys sefydlu cyrff sydd i fod â'r swyddogaethau hyn),

(ch) gwneud neu drin honiadau bod aelodau (neu cyn aelodau) o awdurdodau perthnasol wedi torri safonau ymddygiad, gan gynnwys yn benodol—

(i) ymchwilio i'r cyfryw honiadau a dyfarnu arnynt ac adroddiadau ar ganlyniad yr ymchwiliadau,

(ii) y camau y caniateir eu cymryd pan geir bod toriadau wedi digwydd,

(d) codau ymddygiad ar gyfer cyflogeion awdurdodau perthnasol.

At ddibenion y mater hwn—

mae i "awdurdod perthnasol" yr un ystyr ag sydd iddo yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ond ac eithrio ym mharagraff (d) nid yw'n cynnwys awdurdod heddlu,

mae "aelod" yn cynnwys aelod cyfetholedig o fewn ystyr y Rhan honno.

*Mater 12.4*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â strategaethau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol i hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd neu gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys darpariaeth sy'n gosod gofynion mewn cysylltiad â'r cyfryw strategaethau ar bersonau eraill ac iddynt swyddogaethau o natur gyhoeddus.

*Mater 12.5*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag—

(a) gwneud trefniadau gan awdurdodau Cymreig perthnasol i sicrhau gwelliant yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer,

(b) gwneud trefniadau gan awdurdodau Cymreig perthnasol ar gyfer cynnwys, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr arferiad o swyddogaethau neu sy'n debygol o fod â buddiant ynddynt, a

(c) asesu ac arolygu perfformiad awdurdodau Cymreig perthnasol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

Mae'r canlynol yn "awdurdodau Cymreig perthnasol"—

(a) cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru,

(b) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru,

(c) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys,

(ch) corff codi ardoll o fewn ystyr adran 74(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn cysylltiad â hi yr oedd y cyngor sir neu'r awdurdod codi taliadau y cyfeirir ato yn adran 74(1)(b) o'r Ddeddf honno yn gyngor neu'n awdurdod ar gyfer ardal yng Nghymru,

(d) corff y mae adran 75 o'r Ddeddf honno yn gymwys (ardollau arbennig) ac a fu o ran y flwyddyn ariannol a ddechreuodd yn 1989 â'r pŵer i godi ardreth drwy gyfeirio at eiddo yng Nghymru.]

*Maes 13: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*Mater 13.1*

Creu a rhoi swyddogaethau i swyddfa neu gorff ar gyfer ac mewn cysylltiad ag ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau Cynulliad ac adrodd ar ganlyniad yr ymchwiliadau hynny i'r Cynulliad.

*Mater 13.2*

Rhoi swyddogaethau i Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer ac mewn cysylltiad â hwyluso arfer gan y Cynulliad ei swyddogaethau (gan gynnwys darparu i'r Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Cynulliad).

*Mater 13.3*

Darparu ar gyfer ac mewn cysylltiad â thalu cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i neu o ran aelodau Cynulliad, y Prif Weinidog, unrhyw un o Weinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol ac unrhyw un o Ddirprwy Weinidogion Cymru.

*Mater 13.4*

Darparu ar gyfer ac mewn cysylltiad â chreu a chynnal cofrestr o fuddiannau aelodau Cynulliad a'r Cwnsler Cyffredinol.

*Mater 13.5*

Darparu am ystyr geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn -

(a) Mesurau'r Cynulliad,

(b) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesurau'r Cynulliad, ac

(c) is-ddeddfwriaeth nas gwneir felly ond a wneir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol.

*Mater 13.6*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â gweithdrefnau i ymdrin â Mesurau Cynulliad preifat arfaethedig, gan gynnwys, yn enwedig—

(a) gweithdrefnau ar gyfer gwrando ar hyrwyddwr a gwrthwynebwyr Mesurau Cynulliad preifat arfaethedig,

(b) y personau a gaiff gynrychioli'r hyrwyddwyr a'r cynrychiolwyr hynny, a'r cymwysterau y mae'n rhaid i'r bobl hynny feddu arnyn nhw,

(c) pennu ffioedd ar gyfer ac mewn cysylltiad â hyrwyddo Mesurau Cynulliad preifat arfaethedig, ac

(ch) asesu'r costau yr eir iddynt mewn cysylltiad â Mesurau Cynulliad preifat arfaethedig.

*Maes 14: gweinyddiaeth gyhoeddus*

*Maes 15: lles cymdeithasol*

*Mater 15.1*

Ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir neu a sicrheir ganddynt a thaliadau ar gyfer unigolion ag anghenion sy'n ymwneud â'u llesiant fel bod modd iddynt hwy, neu i'r personau sy'n gofalu amdanynt, sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—

(a) cynnal plant;

(b) credydau treth;

(c) budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad;

(ch) nawdd cymdeithasol;

(d) cronfeydd byw'n annibynnol;

(dd) motability.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

ystyr "awdurdodau lleol" ( "local authorities" ) yw cynghorau'r siroedd neu'r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru;

ystyr "gwasanaethau gofal cymdeithasol " ("social care services") yw unrhyw un o'r canlynol a ddarperir mewn cysylltiad â lles unrhyw berson: gwasanaethau gofal dibreswyl ; cyngor, cwnsela neu wasanaethau adfocatiaeth; neu unrhyw gymorth arall ;

ystyr "lles" ("well-being"), mewn perthynas ag unigolion, yw lles cyn belled ag y mae a wnelo ag unrhyw un o'r canlynol—

(a) iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol;

(b) amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;

(c) addysg, hyfforddiant a hamdden;

(ch) y cyfraniad a wneir ganddynt i gymdeithas;

(d) llesiant cymdeithasol ac economaidd;

(dd) diogelu eu hawliau.

*Maes 16: chwaraeon a hamdden*

*Maes 17: twristiaeth*

*Maes 18: cynllunio gwlad a thref*

*Maes 19: dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd*

*Maes 20: y Gymraeg*

Atotiad 3

**Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru**

**Proposed Welsh Red Meat Industry LCO Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

22 Hydref 2008

Annwyl Gydweithiwr

**Ymgynghoriad - Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru ar 14 Hydref 2008 i ystyried y Gorchymyn arfaethedig, *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008* a chyflwyno adroddiad arno, a hynny fel bod y Cynulliad yn gallu cael y pwerau i gyflwyno deddfwriaeth ynghylch datblygu, marchnata a hybu'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

Mae'r pwyllgor wedi cytuno ar y maes craffu, fel a ganlyn:

- egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, hynny yw, bod cymhwysedd deddfwriaethol, fel y nodir ym 'Mater 1.1', yn cael ei roi i'r Cynulliad; a

- a yw'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rhoi'r agenda bolisi ar ddiwydiant cig coch Cymru ar waith, ac yn benodol, a yw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

Diben gwaith y pwyllgor yw craffu ar y ffordd y drafftiwyd y Gorchymyn arfaethedig ac, fel y cyfryw, bydd y pwyllgor yn osgoi bod yn rhan o drafodaethau manwl ar Fesurau arfaethedig a allai gael eu cyflwyno yn sgîl rhoi cymhwysedd deddfwriaethol, adolygu polisïau sydd eisoes yn bod yn y maes hwn neu ddyblygu gwaith a wnaed eisoes gan gyn-bwyllgorau pwnc.

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor er mwyn helpu i lywio'i waith. Wrth baratoi eich cyflwyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylw i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Beth yw eich barn ar yr egwyddor cyffredinol bod cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a nodir ym Mater 1.1 yn cael ei roi i'r Cynulliad?

**Ffon / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

2. Beth yw eich barn ar delerau'r Gorchymyn arfaethedig ? Er enghraifft, a yw Mater 1.1 yn rhy gyfyng neu'n rhy eang?

3. A oes angen cynnwys dehongliadau o'r 'diwydiant cig coch', 'gwartheg' a 'moch' yn y Gorchymyn arfaethedig? Os felly, a yw'r dehongliadau a ddarperir yn briodol neu a ddylid ychwanegu neu ddileu unrhyw beth?

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gorchymyn arfaethedig, ei Femorandwm Esboniadol a manylion am y pwyllgor, ynghyd â chanllaw i'r broses ddeddfu yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2008-no8-ag_rural_dev.htm

Os dymunwch gyfrannu at waith y pwyllgor, anfonwch eich cyflwyniad drwy e-bost neu ar ddisg, os yw'n bosibl neu gopi papur at:
Sarah Sargent, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.
E-bost: legislationoffice@cymru.gsi.gov.uk (Gofynnir i chi roi'r canlynol fel pennawd i'ch e-bost: '*Ymgynghoriad: Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru'.)*

**Dylai eich cyflwyniadau gyrraedd y Cynulliad erbyn dydd Mercher 19 Tachwedd 2008. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw.**

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi ystyried y canlynol:

- Dylai eich ymateb fod yn gryno gan roi sylw i'r materion gerbron y pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;
- Fel arfer, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trefnu bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd fedru craffu arnynt, a gellir eu gweld a'u trafod hefyd mewn cyfarfodydd pwyllgor. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir yn eich cyflwyniad.**
- Gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- Gofynnir i chi nodi a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor.

Croesewir cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os oes diddordeb gennych mewn cyfrannu at unrhyw ymgynghori pellach yn y maes hwn, gofynnir i chi nodi hynny yn eich ymateb.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Sarah Beasley, y Clerc (029 2089 8032), neu Sarah Sargent, y Dirprwy Glerc (029 2089 8408).

Mick Bates

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd**

**Ffon / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

# Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

WRMI 1 - Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru

WRMI 2 - NFU Cymru

WRMI 3 - Undeb Amaethwyr Cymru

WRMI 4 - Hybu Cig Cymru

WRMI 5 - Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf

WRMI 6 - Y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol

WRMI 7 - Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol

**Ffon / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

## Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru

### Rhestr o dystiolaeth lafar

| **Dyddiad y cyfarfod** | **Busnes** |
|---|---|
| 11 Tachwedd | **Tystiolaeth lafar**<br>▪ Y Gweinidog dros Faterion Gwledig |
| 18 Tachwedd | **Tystiolaeth lafar**<br>▪ Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf<br>▪ Hybu Cig Cymru |

**Ffon / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**